4.135

# PENILLION

**A ddarllenwyd yn Bethesda-y-Fro ar yr achlysur o gyflwyno TYSTEB yn cynwys COD HARDD a DEUGAIN GINI i'r Parch. M. MORGAN, y Gweinidog, Nos Fercher, Ebrill 30ain, 1873. Gan y Parch. J. Davies, Taihirion.**

1 Fe genid gynt fawlgerddi,
Drwy Gymru a phob gwlad,
I filwyr a'u gorchestion
Ar greulon faes y gwaed;
Gorfolid eu gwrhydri
Yn llosgi ac yn lladd,
Ag erchyll arfau difrod,
Bob oed, bob rhyw, a gradd.

2 Fe nyddai'r awen awdlau,
Holl ansoddeiriau'r iaith
Yn gelfydd a ddefnyddid,
I foli'r anfad waith
O lenwi a galanas
Bob dinas, gwlad, a thre',
A pheri gwae a dychryn
I ddisgyn ar bob lle.

3 Cabolid cof-golofnau
O'r marmor goreu gaed,
Er coffa am bersonau
Wnaeth lynau coch o waed,
Wasgarodd bob trueni,
Caledi, poen, a braw,
Gofidiau a thrallodau,
A dagrau ar bob llaw.

4 Canmolid hwy'n gyhoeddus
Gan ddawnus wyr o ddysg,
Mewn gwleddoedd gwych fe yfid
Eu hiechyd gyda rhwysg,
Tra gweddwon a'u rhai bychain
Yn ochain dan eu clwy,
Heb obaith cwrddyd yma
A'u perthynasau mwy.

5 Braidd byth y ceisid enwi
Llesolwyr teulu dyn,
Os na wnaed i'w dirmygu
A'u cablu bob yr un,
Ond heddyw hwy ddyrchefir
Trwy'n bro-dir gyda blas,
Hi aeth yn dro o'r diwedd
Trwy lwydd efengyl gras.

6 Mor weddaidd ar fynyddoedd
A chymoedd Gwalia wiw,
Yw traed ei hefengylwyr,
Dyngarwyr goreu'u rhyw;
Blagura eu rhinweddau
Yn mywyd tyrfa fawr
Gynt sathrent ddeddf y nefoedd
O dan eu traed i lawr.

7 Gwir barch a theimlad calon
Brodorion da y Fro,
At enwog wyr y pwlpud,
Amlygid lawer tro;
Eu bugail ymwrola,
Ymrodda i'w lleshau,
Ac wrth ei lewyrch yntau
Maent hwythau'n llawenhau.

8 Mae serch yr holl eglwysi
Yn llosgi'n deimlad byw
At berson Mr. Morgan,
Gwr anwyl, duwiol yw;
Mae'r dysteb heno'n tystio
Fod iddo barch dinam,
Ac nad oes i'w deimladau
Neb wnelai unrhyw gam.

9 Nid gwenau haul digwmwl
Yn gwbl fu ei daith,
Fe rwygwyd ei deimladau
Gan angeu ambell waith.
Ond balm i'w glwyfau dyfnion
A'i holl archollion fu
Sirioldeb ei gyfeillion
A'u tirion wenau cu.

10 Ei nawnddydd hyd yr afon
Fo heb awelon croes,
A'i ddiwedd yn dangnefedd
Trwy rinwedd angeu loes;
Boed iddo oreu'r ddaear
Tra byddo yma'n byw,
Ac wedi hyny nefoedd
Dragwyddol gyda Duw.

9265

X205 222765